Ofcom
Sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**
Making communications work **for everyone**

# Eich ymateb

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n rhesymeg dros y Rheolau 2.17 a 2.18 newydd arfaethedig? Rhowch resymau dros eich ateb.** | Ydym, am y rhesymau a nodwyd gennych |
| **Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r ystyr arfaethedig ar gyfer 'cyfranogwr' at ddibenion y rheolau hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.** | Ar dudalen 15 o'r ddogfen ymgynghori Saesneg (am ryw reswm mai'r ddogfen Gymraeg yn anghyflawn) mae'r diffiniad o 'participant' yn nodi: *"It would not cover those featured in a programme due to its coverage of an event, e.g. players in a sports game."* Teimlwn fod angen gwell eglurder ar y math o ddigwyddiad sy'n cael ei eithrio yma. 'Rydym yn cymryd mai'r bwriad yma yw eithrio digwyddiadau sydd wedi eu trefnu gan drydydd parti, neu ddigwyddiadau sy'n cymryd lle yn annibynnol o'r cynhyrchiad (e.e. Eisteddfod). 'Rydym hefyd yn cymryd y byddai digwyddiad sydd wedi ei drefnu ar gyfer cynhyrchiad (e.e. 'Côr Cymru', yn disgyn o fewn y diffiniad. Ydy'r dehongliad hyn yn gywir ac, os felly, oes modd nodi hyn un ai yn y diffiniad neu'r canllaw? |
| **Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig y rheolau hyn? Rhowch resymau.** | Ydym, am y rhesymau a nodwyd gennych. |
| **Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r geiriad arfaethedig ar gyfer y Rheolau 2.17 a 2.18 newydd? Rhowch resymau dros eich ateb.** | O ran 2.17, nodwn y bwriad i ddefnyddio'r derminoleg 'lles, llesiant ac urddas' yn hytrach na'r hyn sydd yn rheol 1.28 ar hyn o bryd, sef 'lles corfforol ac emosiynol'. Er ein bod ni'n cytuno fod angen newid, nid ydym yn argyhoeddedig fod y gwahaniaeth rhwng 'lles' a 'llesiant' yn ddigon clir, nac yn gwneud cyfiawnder â'r ffaith mai cymryd gofal dyledus i osgoi achosi neu waethygu afiechyd meddwl yw'r prif amcan. Cynigwn felly y byddai newid symlach i 'lles corfforol ac iechyd meddwl' yn fwy priodol, ac yn haws i'w ddeall o ystyried pa mor gydnabyddedig yw'r defnydd o'r term 'iechyd meddwl' erbyn hyn. |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylid addasu Rheol 1.28 fel hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.** | Mae'n hymateb i gwestiwn 4 uchod eto'n berthnasol yma. |
| **Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylid addasu Rheol 1.29 fel hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.** | Ydym, am y rhesymau a nodwyd gennych. |
| **Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno â'r ffordd yr ydym yn bwriadu ymdrin â chanllawiau'r Cod? Rhowch resymau.** | Ydym ar y cyfan, ond fe fyddai angen ystyried y canllawiau'n llawn cyn cadarnhau'n derfynol. Teimlwn y dylid cymryd y cyfle i ymdrin â chwestiwn sydd yn codi'n aml yn ein profiad ni, sef pryd y mae disgwyl fod cyfrannydd yn cael asesiad seicolegol, a/neu bryd y dylid gofyn am gyngor meddygol. Er ein bod yn llwyr gytuno mai'r darlledwyr sydd i benderfynu, 'rydym hefyd yn teimlo y byddai'n werthfawr iawn cael canllawiau ychwanegol er mwyn iddynt allu dod i'r penderfyniad cywir. Wrth gwrs gall fod cael asesiad seicolegol neu gyngor meddygol fod yn hanfodol. Fodd bynnag, gall hefyd fod yn gostus, gall achosi oedi, a gall ymyrryd â phreifatrwydd cyfranwyr. Yn unol â'r cysyniad o sicrhau gofal dyledus mewn modd sy'n gymesur ac yn annog yn hytrach na'n llesteirio cynyrchiadau mentrus, fe fuasai'n ddefnyddiol cael rhestr o ffactorau sy'n awgrymu y dylid cael asesiad/cyngor, neu esiamplau o sefyllfaoedd cyffredin lle gallai fod yn briodol. Felly hefyd rhestr o ffactorau neu esiamplau o sefyllfaoedd lle na fyddai eu hangen. |
| **Cwestiwn 8: Allwch chi roi enghreifftiau o arfer gorau o ran y gofal dyladwy ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni? Nodwch y rhai rydych chi'n teimlo y dylid eu cynnwys yn y canllawiau. Rhowch fanylion os oes modd.** | **Yn Y Gwaed**<br>Rydym yn darlledu cyfres o raglenni sy'n ystyried dewisiadau gyrfa pobl ifanc. Yn dilyn ymchwil i'w hachau darganfu'r cyfranwyr beth oedd gwaith eu cyndeidiau. Fe ânt ymlaen i ddarganfod a ydy'r galwedigaethau neu dalentau hynny 'yn eu gwaed'. Rhoddwyd protocol lles mewn lle. Rhestrwyd y risgiau posib i'r cyfranwyr ynghyd â'r mesurau diogelwch posib, Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau::<br>* proses gastio lle sicrhawyd gwybodaeth lawn a gonest ar y ddwy ochr;<br>* ffurflenni datganiad personol; |

| | |
|---|---|
| | * asesiadau corfforol a seicolegol ym Mhrifysgol Bangor gan ddilyn y *BPS Code of Conduct and Ethics* (Mawrth 2006);<br>* cyngor a chwnsela gan seicolegydd cymwys lle'r oedd angen;<br>* proses ar gyfer rhannu gwybodaeth anodd yn deillio o'r ymchwil;<br>* darparu ffurflen gyngor ynghylch cyfryngau cymdeithasol;<br>* cynnal asesiad risg ynghylch canlyniadau niweidiol posib i aelodau eraill o'r teulu; a<br>* phenodi pwynt cyswllt uniongyrchol o blith y tîm cynhyrchu.<br><br>**Dathlu Dewrder - Tlws Plant S4C**<br>Darlledom raglen oedd yn cynnwys plant ac oedolion bregus. Pwrpas y rhaglen oedd dathlu a gwobrwyo plant a oedd wedi dangos dewrder arbennig. Rhoddwyd protocol lles mewn lle. Yn unol â'r protocol:<br><br>* apwyntiwyd swyddog amddiffyn plant a phobl fregus;<br>* cyflawnwyd asesiad risg iechyd meddwl ar gyfer pob cyfrannwr ac adolygwyd hyn ar bob cam: cyn-gynhyrchu; yn ystod cynhyrchu; ac ar ôl cynhyrchu;<br>* darparwyd taflen wybodaeth fanwl i rieni, gwarchodwyr ac oedolion priodol a chafwyd cyfathrebu agos a chyson ar lafar ac yn ysgrifenedig er mwyn sicrhau cydsyniad gwybodus;<br>* nodwyd parodrwydd i gael cyngor proffesiynol ac i drafod â theulu, ffrindiau a sefydliadau e.e. ysgolion lle'n briodol neu'n angenrheidiol;<br>* sicrhawyd fod rhieni/gwarchodwyr/oedolion priodol yn bresennol yn ystod yr holl ddyddiau ffilmio ac ymgynghorwyd â nhw drwy gydol y broses;<br>* trafodwyd cyfraniadau gyda'r cyfranwyr cyn eu darlledu/cyhoeddi. Rhoddwyd cyngor a chefnogaeth ynghylch y posibilrwydd o ymateb negatif, gan gynnwys adborth ar gyfryngau cymdeithasol; ac<br>* ymrwymwyd i gadw mewn cysylltiad â'r teuluoedd ar ôl cynhyrchu er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth berthnasol yn dal i fod ar gael iddynt. |